## Dydd Llun – Iesu yn y Deml

**Darllen Luc 19:45–48; Marc 11:12–26; Ioan 2:1–22; Mathew 21:10–17**

I Luc, yr oedd y Deml yn sefydliad pwysig, ac nid rhyfedd felly mai ei adroddiad ef yw'r byrraf o'r pedwar. Ar y bore Llun, teithiodd Iesu a'i ddisgyblion yn ôl dros Fynydd yr Olewydd i Jerwsalem er mwyn cael treulio amser yn dysgu a chyfathrebu yn y Deml. Ond cyn mynd ati i ddysgu gwelodd fod angen adfer y Deml i'w phriod waith o fod yn Dÿ Gweddi ac nid yn ogof i gyfnewidwyr arian i ecsploetio'r tlawd a'r duwiol rai. Ar ôl cyflawni'r glanhad, aeth Iesu ati i osod gerbron y bobl ei awdurdod a'i eiriau o gysur a chyfarwyddyd. Y deml oedd mangre ei ddysg, ac yn fwy na neb o'r tri arall, pwysleisia Luc fod Iesu wedi cyflwyno cryn dipyn o ddysgeidiaeth o fewn teml ei hynafiaid. Felly aeth ati i gyflawni'r hyn oedd yn nodweddiadol ohono fel athro, sef dysgu a phregethu'r newyddion da. Ymysg ei wrandawyr yr oedd nifer dda o'i wrthwynebwyr. Yr oedd y gwrthwynebiad yn ffyrnigo'n enbyd. Arferai ddadlau â'r Phariseaid ynghylch arddodiad dwylo a'r Gyfraith. Ond gyda'r prif offeiriad a'i gynorthwywyr, mater o egluro ystyr y Ffydd oedd craidd ei sgwrs. Deuai'r rhain o deulu Lefi, y Deml oedd cylch eu hawdurdod a'u gweithgarwch crefyddol. Nid Synagog lle rhoddid gwahoddiad i leygwyr fel Iesu i gymryd rhan ynddo oedd y Deml. Roedd y Deml yn llwyr yn nwylo'r offeiriaid, ac nid oeddent hwy'n hapus o gwbl ei fod ef yn meiddio tresbasu ar eu libart hwy.

Naturiol oedd gofyn y cwestiwn: trwy ba awdurdod y mynnai Crist lefaru a gweithredu, yn arbennig yn y dasg o daflu allan y cyfnewidwyr arian? Cwestiwn digon naturiol, er bod gwerin gwlad wedi cael ei synnu o ddechrau ei weinidogaeth. Ond y mae'r cwestiwn yn ddigon teg bob amser. Ni chaniateir i berson heb gymwysterau weithredu fel meddyg yn y gymdeithas, neu athro mewn ysgol, neu fargyfreithiwr mewn llys barn. Ond ym maes crefydd gellir gweld nad yw hynny'n digwydd bob amser. Er i'r Eglwys Gristnogol osod canllawiau ar gyfer hyfforddi clerigwyr a gweinidogion, ceir heddiw reolau sy'n caniatáu i bobl na chafodd hyfforddiant i wneud hynny, i ofalu am oedfaon ac angladdau a hyd yn oed i weinyddu Sacrament Swper yr Arglwydd. Hyn oedd yn poeni awdurdodau crefyddol y Deml, a dylem gofio hynny a pheidio â bod yn rhy llawdrwm arnynt. Ac yn wir, mae'r ateb a roddodd Iesu i gwestiwn y prif offeiriad a'r ysgrifenyddion a'r henaduriaid yn wahanol i'r hyn a ddisgwylir. Atebodd Iesu hwy: 'Fe ofynnaf finnau rywbeth i chwi. Dywedwch wrthyf: bedydd Ioan, ai o'r nef yr oedd, ai o ddynion?'

Ni allai'r awdurdodau fynegi'r gwir gan eu bod yn ofni tarfu ar y bobl, gan mai'r farn gyffredinol oedd mai proffwyd oedd Ioan: proffwyd a ddioddefodd gam ac a laddwyd. A dyna ddymunent ei wneud i Grist Iesu hefyd. Yr oedd yn amlwg nad oedd Iesu chwaith yn mynd i ganiatáu i'r awdurdodau ddianc rhag eu cyfrifoldeb a'u hunan-dwyll. Wedi iddynt ateb nad oeddent yn gwybod o ble deuai ei awdurdod, meddai Iesu: 'Ni ddywedaf finnau chwaith wrthych chwi trwy ba awdurdod yr wyf yn gwneud y pethau hyn'.

Yr oedd yn amlwg fod Iesu'n feistr ar ddadlau, a'i fod yn gwybod sut i osgoi rhoi cyfle i'w wrthwynebwyr gario'r dydd. Byddai rhaid cynnal dadl arall yn weddol fuan. Yn y cyfamser, adroddodd Iesu stori am y tenantiaid: stori sy'n ddameg ac yn alegori. Lladdwyd yr etifedd a lladdwyd hefyd y tenantiaid a gyflawnodd y weithred lwgr. Trosglwyddwyd etifeddiaeth Crist o ddwylo Jerwsalem i ddwylo Rhufain. Mae hynny'n digwydd heddiw. Trigolion Affrica ac Asia sy'n cyflawni cenhadaeth y Crist yn ysblennydd yn ein dyddiau ni, ac nid ni bobl Ewrop.

***D. Ben Rees***